

## LLEISIAU O LAWYR Y FFATRI / VOICES FROM THE FACTORY FLOOR

### Ffatri Wlân Glyn Ceiriog (1944-1950)

**Cyfwelai:** VN009 Beti Davies  
**Dyddiad:** 16: 01: 2014  
**Cyfwelydd:** Kate Sullivan ar ran Archif Menywod Cymru

*There is an English summary of the interview following the Welsh text*

Cadarnhaodd Beti ei chyfeiriad a'i dyddiad geni, 30/08/1930.

Roedd ei rhieni wedi byw yng Nglyn Ceiriog erioed . Roedd ei thad yn gweithio yn y ffatri yno. Bu farw ei mam yn 41 o gancr a dyna pam fod Beti wedi gadael yr ysgol ramadeg yn Llangollen i edrych ar ôl ei mam, ond fu farw ei mam o fewn 6 mis, pan oedd Beti yn 11. Ac roedd ei thad eisiau i Beti ddychwelyd i'r ysgol ramadeg, ond doedd o ddim yn gallu fforddio hynny. Felly, dychwelodd hi i'r ysgol yng Nglyn Ceiriog yn 13 oed, a gadael flwyddyn yn diweddarach, i ddechrau gweithio yn y ffatri wlân yn 14 oed, ym 1944. Gadawodd hi'r ysgol ym mis Gorffennaf a dechrau gweithio ym mis Awst. Roedd ganddi ffrindiau yn gweithio yno yn barod, roedd pawb yn gweithio yn y cwm fwy neu lai. Ond yn yr ysgol ramadeg roedd Beti eisiau bod yn athrawes. Doedd hi ddim yn rhy siomedig, meddai, gan ei bod hi'n mwynhau yn y ffatri.

Ei gwaith cyntaf hi oedd gwneud y *bobbins* - roedd y rhan fwyaf yn dechrau ar y *bobbins*. Chafodd hi ddim cyfweiliad. Roedd perchennog y ffatri yn byw yn y pentref a gofynnodd ei thad a oedd gynno fo waith i Beti, ac aeth i i mewn yno. Doedd hi ddim yn teimlo'n nerfus na dim byd. Chafodd hi ddim hyfforddiant, er nad oedd hi wedi gwneio gartref. Roedd yn rhaid dysgu ar y *job*, fel petai.

Roedd y ffatri yn fawr - tri lawr, gyda phandy o dani. **Roedd yn oer yno, lle roedd hi'n gweithio, ar yr ail lawr. Dim ond chwech neu saith o ferched oedd yn gweithio yno, yn sefyll ar eu traed drwy'r dydd.** Roedd hi'n gweithio rhwng hanner awr wedi saith tan hanner awr wedi pump, gyda hanner awr i ginio. Doedd dim amser i fynd adre i ginio, felly oedd pawb yn dod â bwyd ac yn bwyta i lawr wrth y pandy yn yr haf, ac wrth y stôf mewn tywydd oer.

**Ar ôl symud o'r *bobbins* roedd hi'n gwneud deunydd ar gyfer cotiau a siwtiau, ar beiriant gwŷdd (loom) a oedd yn gyflym a swnllyd.** Er ei bod hi'n sefyll drwy'r dydd, doedd hi ddim yn cofio teimlo'n flinedig gan ei bod hi'n ifanc, meddai. Roedd hefyd yn gweithio bob dydd

**Sadwrn, o saith tan hanner awr wedi deuddeg.** Roedd brêc am chwarter awr am ddeg o'r gloch, a chwarter awr yn y prynhawn. Doedd dim peiriant na thegell, felly roedd rhaid iddi hi fynd â fflasg.

Roedd y ffatri yn cynhyrchu blancedi, roedd wyth gwŷdd yn gwneud blancedi a'r tair arall yn gwneud deunydd cotiau a siwtiau.

13:20 Roedd cefnder iddi yn gweithio yno hefyd, a nes ymlaen daeth ei chwaer Marion yno am gyfnod byr. Roedd hi'n 'nabod pawb. **Roedd hi'n mwynhau'r gwaith, er bod y ffatri yn ofnadwy o swnllyd a doedd hi ddim yn bosib siarad,** dim ond yn ystod amser brêc. Doedd dim byd i amddiffyn clustiau'r gweithwyr, ond doedd y sŵn ddim yn effeithio arnyn nhw, gan eu bod nhw wedi arfer. Roedd Beti ar y *bobbins* am flwyddyn cyn mynd i weithio ar y gwŷdd yn gwneud defnydd ar gyfer cotiau. Roedd hi'n gwneud darnau ar gyfer y cotiau, dim y cotiau eu hunain, ac roedd y gwlan yn wyn. Roedd y defnydd wedyn yn mynd i Runcorn i gael ei liwio. Deuai'r stwff i wneud y *bobbins* o Bradford, ar y trên. Aeth hi ymlaen i esbonio sut roedd y *bobbins* yn cael eu gwneud. Roedd hi'n gwneud lot o *bobbins* mewn diwrnod ac yn eu rhoi nhw mewn basgedi mawr ar gyfer y bobl ar y gwyddiau i'w defnyddio. Roedd basged o *bobbins* ar bwys pob peiriant. Roedd y peiriannau yn mynd yn ddi-stop. Roedd hi'n mwynhau gweithio ar yr ŵydd, achos roedd hi'n gweld y gwaith yn tyfu.

**16:00 Ei chyflog ar y dechrau oedd 5 swllt yr wythnos, a doedd o ddim yn teimlo fel lot o bres ar y pryd. Ond ar ôl mis, cododd i 6 swllt, a phan wnaeth hi orffen yn ugain oed, roedd hi'n cael 3 swllt ar hugain a chwe cheiniog.**

Un tro, cafodd hi gyfle i brynu un o'r cotiau, smart efo coler felfed ddu:

**“Darn wedi mynd i ffwrdd a bod nhw wedi cael llythyr yn ôl i ddeud bod ‘na lot o glymau ynddo, ond os fasen ni'n licio prynu côt, ac wedyn, camel oedd yr un a fel rhyw 'duck egg blue', o liw neis, a gaethon ni gynnig prynu côt am bum punt, ac oedden nhw'n cadw pum swllt yr wythnos o'n cyflog ni nes on ni wedi talu'r pum punt. A mi ddedodd rhywun wrtha i bod y cotiau 'na yn werth pum punt ar hugain yn y siopau o achos oedd o o'r defnydd gorau - gwlan.”**

**Roedd Beti yn cadw tŷ hefyd. Roedd hi'n rhoi'r rhan fwyaf o'i chyflog i'w thad, a chadw dau bisyn hanner coron iddi hi ei hun.** Doedd ei thad ddim yn gweithio gan ei fod wedi colli ei iechyd ar ôl i'w mam farw. Felly'r adeg honno, dim ond hi oedd y gweithio, er bod ei thad yn cael rhywbeth o'r chwarel, rhywbeth gan ryw glwb yn y chwarel ar gyfer pobl oedd allan o waith. **Felly, ar un adeg, roedden nhw i gyd yn byw ar 2 swllt ar bymtheg yr wythnos, roedd hi'n amser caled iawn.** Ond roedd 'na lot yr un fath, doedd dim cyflog mawr i'w gael gan neb. Roedd Beti, fel y ferch hynaf, yn gwneud bwyd i'r teulu. Redd hi'n cael ordor o'r siop bob wythnos ac roedden ddod â'r ordor i ddrws y tŷ. Roedd ei dad yn trio coginio hefyd, bob amser yn gwneud bwyd syml, dim '*luxuries*' o gwbl.

20:00 Roedd hi'n mynd i'r capel bob Nos Lun, *band of hope* Nos Fercher, a threuliai ei hamser rhydd yn y pentref. Dywedodd (oddi ar y recordiad) ei bod hi a'i chwaer a ffrindiau arfer mynd lawr i'r siop ar ôl gwaith yn yr haf ac eistedd ar y wal y tu allan am oriau.

Doedd dim undeb yn y ffatri. Doedd hi ddim yn cofio pobl yn mynnu mwy o arian, gan nad oedd gwaith arall yn y pentref, dim ond y chwarel a'r ffatri wlan. Doedd y cyfleusterau ddim yn dda yn y ffatri, dim ond toiled oedd yno, y tu allan, ond dim byd arall. **Roedd yn 'draughty' iawn, achos**

**tyllau yn y to, ac yn oer. Roedd yn rhaid iddyn nhw weithio yn eu cotiau weithiau.** Roedd digon o olau ac mae hi'n cofio pan ddaeth trydan i'r pentref. Dydy hi ddim yn cofio o ble yr oedd y golau yn dod cyn i'r ffatri gael trydan, o'r *turbines* dŵr, mae'n debyg. Ond pan oedd hi yn y ffatri, roedd trydan yno.

Dyn o Swydd Efrog oedd y *boss*, W. A. Dennison. Symudodd i'r pentref ym 1940. Caeodd y ffatri yn 1952. Roedd o'n bresennol bob dydd, yn yr offis, ac yn cadw llygaid drwy'r amser ar y gweithwyr, heb siarad llawer. 'Sais pur' oedd o. Cymry oedd y gweithwyr i gyd. Cymro oedd y *supervisor*. Roedd dau ddyn yn gweithio yno - un yn gwneud y pethau er mwyn iddyn nhw wneud y *bobbins*, sef y *supervisor*; a'r llall yn trwsio'r peirannau pan oedd y fraich yn torri neu'r wrennol yn dod allan, a gallai fod yn beryglus. Roedd y berthynas yn iawn rhwng y merched a'r dynion gan fod pawb o'r pentref ac ar yr un lefel. Roedd awyrgylch da yno, pawb yn siarad amser cinio, ac roedd yn lle hapus i weithio.

**Roedd pawb yn ymwybodol bod y gwaith yn gallu fod yn beryglus, e.e., os oedd y wrennol yn dod allan gallai rhywun gael ei fwrw gan hynny. Dydy hi ddim yn cofio damweiniau o gwbl. Doedd y boss ddim yn gofalu amdanynt, dim ond cerdded o gwmpas lot.**

27:20 Roedd y merched i gyd o'r un oedran fwy neu lai, roedd pawb yn gadael yr ysgol a mynd yno. Roedd pawb yn ifanc. Roedd merched hŷn wedi bod yn gweithio yno ond yn ei chyfnod hi, roedd pawb bron yr un oedran. Ar ôl priodi, roedd merched yn cario ymlaen, meddai hi. Roedd rhai menywod priod yno cyn iddi hi fynd yno a gwnaeth ei grŵp hi gymryd eu lle, h.y. rhywun yn gadael a rhywun newydd yn cael ei gwaith.

Roedd Beti yno am chwe blynedd, roedd bron yn 20 oed yn gadael. Roedd sôn bod y ffatri yn mynd i gau ac roedd ganddi gefnder yn gweithio i'r *Forestry Commission*, ac roedd 'na *nursery* yn agos, ger *Oswestry*, ac roedd merched yn gweithio yno. Roedd y cyflog yn well, 2 bunt a chweugain, felly aeth hi yno i weithio tan iddi hi briodi. Roedd hi'n drist fod y ffatri wedi cau, oherwydd dyna oedd bywyd y pentref. Ond oedd hi eisiau cyflog gwell er ei bod hi'n dipyn o siwrnai i fynd yno. Roedd hi'n gallu cerdded i'r ffatri mewn deg munud ond roedd yn rhaid iddi fynd ar y beic i'r gwaith newydd. Roedd hi'n bwriadu priodi ond roedd hi'n amhosibl cynilo arian yn y ffatri wllân. Ond roedd hi'n gallu cynilo tipyn wedyn. **Ar waith 'tasg' roedd hi'n gallu ennill dros £3 yr wythnos.**

30:20 Yn y ffatri, roedd hi'n gwisgo'i dillad ei hunan gydag oferôl drostynt, gan fod lot o olew. Roedd rhaid i'r gweithwyr brynu'u hoferôls eu hunain ond roedd hi'n defnyddio 'hen beth oedd gen i'. Doedd hi ddim yn gwisgo menig.

Doedd dim bonuses, neu perks, dim hyd yn oed amser 'Dolig, a dim parti 'Dolig 'chwaith yn y ffatri wllân. **Er hynny, roedd yn amser hapus er bod y gwaith yn galed. Roedd hi'n reit hapus yno.** Dywedodd fod yn rhaid iddi dyfu i fyny dipyn, achos roedd hi'n gorfod cadw tŷ, nid achos ei bod wedi mynd i weithio. **Hi oedd yr hynaf ac roedd yn teimlo'r cyfrifoldeb yn y teulu ond yn y ffatri doedd hi ddim yn teimlo'n wahanol i'r merched eraill.** Roedd hi'n mynd allan yn y pentref, fel pawb arall, ac yn cael hwyl er gwaethaf y cyfrifoldeb gartref.

34:00 Mae'n cofio'r loris GWR yn dod â'r deunydd i'r ffatri a gwnaeth hi a rhai eraill ofyn am lifft lawr i'r pentref yn un ohonynt un amser cinio. Roedd gyrrwr y lorri yn mynd yn rhy bell, heb stopio, ac roedd rhaid iddi weiddi er mwyn iddo stopio a'i gollwng hi. Roedd yn rhaid iddyn nhw gerdded i fyny eto erbyn un o'r gloch cyn i'r *boss* gyrraedd.

**Stori arall oedd fod y *boss* yn newid bys y cloc yn ôl tua diwedd y dydd:**

**“On i wedi sylwi, wedi bod o yn edrych ar y cloc a gweld bod o'n bump o'r gloch . . . a welais y braich yn dod i fyny ac yn gwthio'r cloc yn ôl deg munud. A wedyn, be ddaru mi, deud wrth y merched, mi aeth o adre, ac aethon ni i fyny a gafael yn y ffon fesur . . . a gwthio'r bys yn ei flaen, a mi ddoth y bys i ffwrdd. Ac wedyn ar y llawr roedd y bys ac roedd yno y dirwnod wedyn, a ni i gyd yn disgwyl cael galwad i'r offis, ond ddaeth hi ddim.”**

Wnaeth dim byd ddigwydd i'r cloc byth wedyn. Doedd dim llawer o siarad rhwng y *boss* a'r gweithwyr beth bynnag, roedd o oedd yn cadw iddo'i hun.

Priododd hi a chael mab ryw bedair blynedd ar ôl gadael y ffatri, ac ar ôl gadael y *Forestry Commission* - bryd hynny, wnaeth hi ddim dychwelyd i'r gwaith. Roedd hi'n edrych ar ôl ei thad tan iddo farw. Aeth hi i lanhau ysgol yn rhan amser am dipyn.

Caeodd y ffatri wlân ym 1951, roedd hi wedi gadael y flwyddyn gynt. Chafodd hyn ddim lot o effaith ar y pentref mewn gwirionedd achos roedd bysys yn mynd i lefydd eraill erbyn hynny ac roedd pobl yn mynd i waith eraill yn ardal ac yn y trefi o gwmpas Glyn Ceiriog.

40:00

### ***English summary***

## **Glyn Ceiriog Woollen Factory (1944-1950)**

**Interviewee:** VN009 **Beti Davies**

**Date:** 16: 01: 2014

**Interviewer:** **Kate Sullivan on behalf of Women's Archive Wales**

Beti was born on 30<sup>th</sup> August, 1930. Her parents had always lived in Glyn Ceiriog where her father worked in a factory. She left Llangollen grammar school when she was eleven years old to look after her mother. (Her mother died of cancer at the age of forty one.) Her father wanted her to return to school but they couldn't afford it. She returned to school when she was thirteen, but it was in Glyn Ceiriog, and she left a year later in order to start work in the woollen factory. The year was 1944. She left school in the July and began work in August. She had friends who were already working there. When she was in the grammar school she had wanted to become a teacher but says she wasn't too disappointed that this didn't happen, as she enjoyed working in the factory.

She got the job as the owner of the factory lived in the village and her father asked him if there was work there for her. She wasn't interviewed. Her first job there was making the bobbins and she had to learn on the job as she didn't receive any training, even though she had never sewed at home.

The factory was a large three storey building with a mill underneath. **Beti worked on the second floor where it was cold there. There were six or seven girls working there, and were on their feet all day.** She started work at half past seven and finished at half past five, and had half an hour for lunch. She didn't have enough time to go home for lunch so everybody brought their own food and went down to the mill to eat it.

**After a year working on the bobbins, she went on to work on the fabric for coats and suits on a loom machine which was noisy and fast. Even though she was on her feet all day she didn't feel tired, as she was young. She also worked every Saturday, from seven until half past twelve.** There was a quarter of an hour break in the morning and in the afternoon, and she had to take her own flask of tea.

The factory produced blankets on eight of the looms and fabric for coats and suits on the other three.

13:20

Beti's cousin worked at the factory, and later on her sister came to work there for a short period. It was a place where everybody knew each other. **She enjoyed the work, even though the factory was very noisy, and it wasn't possible to chat, apart from break times.** They didn't wear anything to protect their ears and got used to the noise. The coat fabric was made from white wool and would be sent to Runcorn to be dyed. The material for the bobbins came from Bradford by train. The bobbins she made went into big baskets to be used on the looms, and there was a basket of looms next to every machine. The machines never stopped.

**16:00 Her starting wage was five shillings which didn't seem much at the time. After a month it rose to six shillings and by the time she left at twenty years old she was earning twenty three shillings and sixpence.**

She once bought a smart coat with a velvet collar from them:

**"A piece of fabric had gone away and they'd received a letter back saying that there were a lot of knots in it, but if we wanted to buy a coat we could. It was camel coat in duck egg blue, and we could buy the coat for five pounds, and they would take five shillings from our pay each week until we'd paid the five pounds. And somebody told me that those coats were worth twenty five pounds in the shops because they were made from the best material."**

**Beti looked after the home as well. She gave most of her wages to her father but kept two half crowns for herself.** Her father couldn't work due to ill health so at that time she was the only member of the family bringing money in apart from a small sum that her father got from some club in the quarry. **At one point the family was living on seventeen shillings a week, and times were hard.** Many families were in the same situation. As the eldest daughter Beti would cook for the family.

20:00 She went to the Band of Hope in the chapel every Wednesday night and spent her spare time in the village.

There was no union in the factory. She doesn't recall anyone ever asking for higher wages. There were no other places of employment in the area apart from the quarry and the woollen factory. Facilities in the factory were poor with an outside toilet. **It was very draughty because of holes in the roof, and it was cold. They had to work in their coats sometimes.** It was light enough in

the factory and Beti remembers that there was electricity there.

The boss's name was W. A. Dennison, and he was from Yorkshire. He moved to the factory in 1940. He would be at the factory every day, in the office, keeping an eye on the workers all the time and didn't speak much. He was a typical Englishman. The workers were all Welsh, including the supervisor. Two men worked there – one of whom was the supervisor who facilitated the work on the bobbins, and the other fixed the machines when the arm was broken or the shuttle had come out, which could be dangerous. Men and women got on well together as they were all from the village and were all on the same level. There was a good atmosphere there and it was a happy place to work.

**Everybody was aware that the work could be dangerous, eg if the shuttle came out it could knock somebody. She doesn't remember any accidents at all. The boss didn't look after them but walked around a lot.**

27:20 The girls were of a similar age and would start in the factory after leaving school. Older women had been working there but during her time there they were all young. Women would carry on working there after getting married.

Beti was there for six years and was nearly twenty years old when she left. There was talk of the factory closing. The Forestry Commission had a nursery nearby in Oswestry where some girls had jobs, and her cousin worked there. The wages were better there too – two pounds fifty – so she went to work there until she got married even though it was further away from her home, meaning she had to cycle to work instead of walking. She was trying to save money in order to get married but it was impossible to do this on the wages she was paid in the woollen factory.

30:20 She wore her own clothes to work at the factory, with an overall over them as there was a lot of oil there. The workers had to provide their own overalls. There were no perks or bonuses at Christmas time. **It was hard work but a happy time in her life.** She had a lot of responsibility at home but when she was in the factory she felt the same as all the other young girls.

34:00 She remembers the GWR lorries delivering materials to the factory. Some of the girls and her asked for a lift down to the village one lunch time. The driver took them too far and they had to shout at him to get him to stop. They had to walk all the way back by one o'clock before the boss got back.

**Beti tells the story of how the boss used to put the clock back towards the end of the day:**

**“I'd noticed after looking at the clock that it was five o'clock . . . I saw an arm going up and pushing the clock back ten minutes. I told the girls and after he'd gone home we grabbed the measuring stick and pushed the hand forward and it came off. It was on the floor and was still there the day after, and we all expected to be called into the office, but heard nothing.”**

She had a son approximately four years after leaving the factory. She didn't return to the Forestry Commission but looked after her father until he died. She got a part-time job cleaning in a school a while after that.

She left the wool factory a year before it closed in 1951. By then were buses to take people to other places to work such as the nearby towns.

40:00